Shan Morgan
Yr Ysgrifennydd Parhaol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

20 Hydref 2017

**Digidoleiddio yng Nghymru**

Annwyl Ysgrifennydd Parhaol,

Diolch ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 2 Hydref i drafod Heriau Digidoleiddio ac am rannu Cynllun Gweithredu Digidol Llywodraeth Cymru.

Mae digidoleiddio yn offeryn ar gyfer newid ac mae'n allweddol i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus, ac mae'r Pwyllgor o'r farn bod hwn yn gyfle i roi Cymru ar flaen y gad o ran datblygiadau yn y dyfodol. Roedd y Pwyllgor yn pryderu ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd ymagwedd fewnol tuag at ddigidoleiddio, sy'n brin o'r uchelgais sydd ei hangen i sicrhau gwir drawsnewidiad. Roedd llawer o'r hyn a glywsom yn canolbwyntio ar systemau mewnol, hyrwyddo gwefannau a chyrsiau hyfforddi, ac er ein bod yn cydnabod gwerth dogfen fewnol, dim ond rhan fach o'r hyn ddylai fod yn strategaeth gynhwysfawr ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan ddylai hon fod.

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod strategaeth sy'n eang ei gorwelion ac sydd â thargedau ac amserlenni clir i sicrhau bod pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd digidoleiddio yn allweddol i sicrhau darpariaeth ar lefel o safon fyd-eang.

Mae agwedd ynysig Llywodraeth Cymru yn rhoi argraff o ymagwedd seilo tuag at gyflwyno digidoleiddio.

Rydym yn croesawu penodiad Prif Swyddog Digidol, ond ymddengys nad yw'r rôl hon yn gweithio ar draws yr holl brosiectau digidoleiddio o fewn Llywodraeth Cymru. Byddem yn awgrymu bod y rhwystrau artiffisial rhwng gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru (e.e. y Prif Swyddog Digidol a NWIS) yn cael eu harchwilio a'u torri i lawr i wella'r broses o gyflwyno a ffurfio agwedd unedig tuag at ddigidoleiddio.

Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi ei hun ar lefel 4 y fframwaith galluogrwydd digidol yn ddiweddar. Roedd gan y Pwyllgor bryderon ynghylch yr ymagwedd hon o hunan-ardystio ac nid yw'n credu y dylai Llywodraeth Cymru ofni her o'r tu allan ar ei pherfformiad yn y maes anodd hwn. Mae hyn yn rhannol am nad oedd yn glir i'r Pwyllgor fod camau mawr wedi eu cymryd i gynyddu'r raddfa o lefel 2 i lefel 4. Credwn y byddai mantais bendant o gael rhywfaint o wiriad allanol i'r raddfa yn erbyn y fframwaith galluogrwydd digidol i wneud y mwyaf o effaith y gwaith ar ddigidoleiddio.

Fel Pwyllgor, roeddem yn siomedig iawn na chafodd yr angen i 'gynyddu galluogrwydd digidol' ei gydnabod fel sgil allweddol ar gyfer o leiaf un o'r swyddi Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd, er gwaethaf y cyfeiriad at ddadansoddiad mewnol o'r sgiliau a oedd yn nodi'r angen am hynny.  Mae angen i ddigidoleiddio gael ei yrru ymlaen o ben uchaf y sefydliad, ac felly mae'n syndod nad oedd dealltwriaeth o'r tirlun digidol yn ofyniad penodol. Ar hyn o bryd mae angen arweinyddiaeth gref a deinamig ar Gymru o ran digideiddio ac mae'n siomedig nad yw hyn wedi ei ymgorffori ar frig eich sefydliad.

Yn gywir

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**